Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 7. Rhif 6.] MEHEFIN, 1907. [Pris 2c.

CYNNWYSIAD.

Nodion y Mis.
A gredodd neb o'r Penaethiaid yndo?
Y Dduwinyddiaeth Newydd—ei tharddiad a'i harwyddocad.
Humphrey Bromley.
Plato. J. E. Manning, M.A., Manchester.
Mrs. Humphry Ward.
Gohebiaethau.
Arholiad yr Ysgol Sul.
Congl yr Awen.
Awduraeth "Myfyrdod mewn Mynwent."
Marwgofion.
Manion ac Hanesion.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygwyr—

W. JAMES, B.A., J.P., a T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.
Barddoniaeth—SARNICOL, County School, Abertillery.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2/6 y flwyddyn. Danfonir 6 copi a ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau.

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygwyr erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed. Gyrer y Farddoniaeth i Sarnicol, County School Abertillery, Mon.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

TALIADAU.

T.J.J., Bangor; T.P., Bargoed: J.S.Ll., Treorchy; T.E., Rhydlewis; T.D.T., Lindsey; Parch. T.Ll.J., Lerpwl; Miss D., Caerdydd.

Dymunir yn arbenig alw sylw Dosbarthwyr a Darllenwyr YR YMOFYNYDD fod TAL YN DDYLEDUS gyda'r rhifyn hwn.

Llyfrau ar Werth . .

Gan J. D. LEWIS, Gwasg Gomer, Llandyssul.

HANES PLWYFI LLANGELER A PHENBOYR; gan D. E. Jones. 3s. 6c.

HANES PLWYF LLANGYNLLO; gan E. Davies. 2s. 6c.

WEDROSIA: Nofel Ddifyr. 6c.

GWEITHIAU GWILYM MARLES. 1s. 6c.

GEIRIADUR Y BARDD; gan Iolo Morganwg a Cynddelw. Pris, 7s. 6c. (Gwerthir yn awr am 3s. 9c.)

YR YSGOL FARDDOL, gan Dafydd Morganwg. 2s.

LLAWLYFR Y LLAIS; gan D. W. Lewis. 1s. 6c.

ROBIN THE NEW STARCH
Reckitt's Blue.
ZEBRA GRATE POLISH.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] MEHEFIN, 1907. [CYF. VII. RHIF 6.

NODION Y MIS.

WYTHNOS y Sulgwyn cynhaliwyd cyfarfodydd blynyddol y Gymdeithas Undodaidd Frytanaidd a Thramor yn Llundain, ac ymddengys oddiwrth yr addroddiadau, fod y cynulliadau wedi bod yn lluosog, y siarad yn hyawdl a gwresog, y gweithrediadau yn effeithiol a brwdfrydig a'r holl adroddiadau yn obeithiol. Gwnawd cyfeiriad at y deffroad deimlwyd yn ystod yr ymdrafodaeth ar y "Dduwinyddiaeth Newydd." Gofynai llawer, am y waith gyntaf erioed, beth oedd daliadau crefyddol yr Undodiaid? Cadwyd y swyddogion yn Essex Hall yn brysur i wasgar llenyddiaeth yn egluro beth yw Undodiaeth, pan oedd yr haint duwinyddol yn ei uchder yn y papyrau newyddion. Yn ystod 1906 rhanwyd 4396 o lyfrau gwerth £304. Y mae yn werth sylwi fod dros driugain o weinidogion perthynol i'r Bedyddwyr, y Methodistiaid Calfinaidd, yr Anibynwyr, y Wesleyaid ac eraill wedi gofyn am rodd o lyfrau Undodaidd yn ystod y flwyddyn ddiweddaf. Cydnabyddai y derbynwyr y lles mawr gawsant oddiwrth y llenyddiaeth. Yn ein rhifyn nesaf, gobeithio y cawn air o brofiad cynrychiolydd yr Eglwysi Cymreig, y Parch. Simon Jones, B.A., Abertawe.

Un o benodau duaf a thristaf mewn cysylltiad â Christionogaeth ydyw yr hon sydd yn son am yr erledigaethau, y creulonderau a'r gosod i farwolaeth mewn amrywiol ffyrdd mae'r eglwys Gristionogol drwy yr oesau wedi bod yn euog o hono. Fe ellid yn naturiol feddwl, y buasai canlynwyr aiddgar y Prophwyd o Nazareth yn ymwrthod yn gyfangwbl a phobpeth fuasai yn ymylu ar hyny. Y mae yr Eglwys Babaidd wedi bod yn nodedig am ei herlid a'i lladd; ac fe wyr pawb fod Eglwys Lloegr wedi dilyn ei esiampl yn

hyn, fel yn llawer o bethau anymunol eraill. Y mae y Protestaniaid a'r Piwritaniaid, eu hunain wedi cael eu herlid a'u lladd, eto y maent hwythau wedi bod yn euog o dywallt gwaed gwirion hereticiaid na chydunent a'u cred hwy. Gwyddom fod Calfin yn euog o losgi Serfed. Gwelsom yn y *Daily Express* sylw gan y llenor adnabyddus hwnw, Syr Conan Doyle, na wyddai ef ddim ond am bedwar corff crefyddol oeddynt yn ddieuog o dywallt gwaed, y Budhiaid gwreiddiol, y Crynwyr, yr Undodiaid, a'r Agnosticiaid.

"A'r cwymp a fu fawr." Yn y geiriau hyn yn ddiweddar y gorphenodd un o bregethwyr mwyaf enwog deheudir Cymru bregeth ar y "Dduwinyddiaeth Newydd." Prif nod ei bregeth ydoedd profi fod "y Cwymp" yn hanesyddol wir fel ei gosodir allan yn yr hen dduwinyddiaeth. Os oedd y Cwymp yn ffaith hanesyddol fel y darllenwn yn Genesis, ac fod yr holl drueni a'r pechod sydd yn y byd wedi ei achosi ganddo, y mae yn rhyfedd na fuasai rhai o ysgrifenwyr yr Hen Destament yn gwybod am dano. Nid oes yna gyfeiriad yn un man, ond yn nechreu Genesis at drychineb mor ofnadwy. Gwyddom am yr anhawsder gynygia ei hun i awdwr llyfr Job. Y mae yn ceisio egluro ac esponio y ffaith fod dynion da yn dioddef yn y byd, ac os ydyw yn gwybod am y Cwymp yn Eden, a chenhadaeth Satan a'r felldith gyhoeddodd Duw uwchben y gread-igaeth, dylai y cyfan fod yn eglur iddo. Ond mewn ymresymiad hir a gorchestol ni wna un cyfeiriad tuag ato, ac y mae yn naturiol i ni gasglu na wyddai ddim am athrawiaeth y Cwymp. A gellir dweyd yr un peth yn mron am holl ysgrifenwyr y Beibl. Ac eto mae y Cwymp wedi cael ei ddefnyddio fel un o'r athrawiaethau pwysicaf yn yr eglwys Gristionogol, ar yr hon y mae'r holl athraw-iaethau eraill yn gorphwys.

Nid yw safle Archesgob Canterbury yn un y mae achos i neb genfigenu wrtho; y mae cyflwr yr eglwys o'r hon y mae efe yn rhyw ystyr yn ben iddi mor gymysglyd, a'r syniadau gofleidir gan ei phleidwyr mor eithafol groes i'w gilydd, fel y mae'n anmhosibl iddo ymddwyn mewn modd fydd yn boddloni pawb. Yr oedd yn barhaus yn derbyn bygythiadau oddiwrth y naill blaid os gwnelai fel hyn, ac oddiwrth y llall os gwnelai fel arall. Nad beth wna ni wna'n iawn. Os pleidia ddefodaeth fe becha yn erbyn un blaid, os peidia fe becha yn erbyn plaid arall. Ac eto tybir fod y Llyfr Gweddi Cyffredin, i'r hwn y maent wedi rhoddi llw o ffyddlondeb yn rhwym o sicrhau unffurfiaeth cred.

Dygodd Mr. Kensit gryn lawer o gynwrf y dydd o'r blaen mewn

cyfarfod yn Mirfield lle'r oedd Archesgob Canterbury yn gadeirydd. Cyfarfod oedd i geisio help i sefydlu hostel mewn cysylltiad â Phrifysgol Leeds lle y bwriedir dwyn i fyny bobl ieuainc ar gyfer y pwlpud Eglwysig. Gelwir y Gymdeithas sydd y tu cefn i'r mudiad yn "Gymundeb yr Adgyfodiad" ac ystyria'r Kensitiaid y blaid yn eithafol Babyddol. Cyn i'r cyfarfod ddechreu cododd rhai y llef, "Down with the Romanising monks," ac aeth un i ben y bwrdd ac ysgydwai ei ymbarelo a gwaeddai yn wyneb yr Archesgob. Taflwyd hwnw allan yn bur ddiseremoni. Dywedir fod achwyniad mawr nad oes haner digon o bobl ieuainc yn parotoi ar gyfer pwlpud yr eglwys wladol, a gwneir cais fel hyn i ddod o hyd i ddosparth newydd.

Y mae *Salvation* y Sais yn cynwys yr hyn y gofyn Cymro ddau air i'w osod allan—Achubiaeth ac Iachawdwriaeth. *Are you saved?* yw'r gofyniad a glywn yn aml, ac edrycha'r gair yn ol ac nid yn mlaen—achub oddiwrth uffern, achub o grafangau'r diafol. Er mwyn diogelwch rhaid bod yn y tren iawn. Nid oes undeb barn yn mherthynas i ba un yw'r tren iawn—Eglwys Lloegr, Eglwys Rhufain, neu un o'r eglwysi anghydffurfiol. I Cardinal Newman y cwestiwn mawr oedd, "A fyddai achubiaeth yn bosibl yn Eglwys Lloegr? A fyddwn i'n ddiogel pe byddwn farw heno?" Atebodd y cwestiwn yn nacaol ar ol hir bryderu ac aeth drosodd at y Pab. Beth yw'r syniad y tu cefn i'r teimlad hwn? Beth yw'r meddwl am Dduw? Gellid meddwl mai swm a sylwedd y cwbl yn y diwedd yw—achubiaeth oddiwrth Dduw!!

Gellid meddwl mai'r unig wir *Salvation* yw'r *Salvation* yn nghyfeiriad caritor—yn nghyfeiriad Iachawdwriaeth; helpu dyn o gyflwr ysprydol is i gyflwr ysprydol uwch. Oni fydd y waedd, 'Gwared ni, Arglwydd daionus,' yn help i fywyd gwell ni fydd yn ateb fawr pwrpas. Os dichon defodau a seremoniau olchi pechod ymaith—troi dyn o fod yn lleidr i fod yn ddyn onest—pob peth yn dda. Oni wna hyny, pa ddefnydd yw? Os ceisio wneir i dangnofi (*placate*) Duw trwy hyny, ni fydd yn ddim amgen nag ofergoeliaeth, a gosodir y Duw a gyfenwir yn gariad ar yr un tir a duwiau'r paganiaid. I lawer, mae'n amlwg, nad yw Iachawdwriaeth heddyw ond math o gynllun i ddianc canlyniadau eu gweithredoedd. Nid yw dynion yn argyhoeddedig o wirionedd y gair hwnw yn y Beibl a ddywed—Duw cariad yw. Iachawdwriaeth yw cyflwr o iechyd ysprydol—dyna'r nod y dylai pawb ymestyn ato.

A GREDODD NEB O'R PENAETHIAID YNDDO?

(Ioan 7 : 48).

Ie, dyna'r cwestiwn mawr. Ateber hwna a bydd hyny yn derfyn ar y ddadl. Fe ŵyr y penaethiaid, maent mewn awdurdod ac yn ddynion anrhydeddus, maent yn hyddysg yn hanes Moses a'r proffwydi hefyd, yn deall yr athrawiaethau, yn gwybod gwerth y defodau a'r seremoniau; ond am y dyn hwn, beth wyddom am dano? Iesu o Nazareth!—a glywodd neb erioed am ryw ddaioni yn dyfod o—Nazareth, o Galilea?

O'r tu arall, dyna'r blaid newydd yn dywedyd na lefarodd dyn erioed fel y dyn hwn. "Tewch â'ch son" medd yr uniongred yn ateb, "A gredodd neb o'r penaethiaid ynddo?" Paham yr awn ni ar ol pob rwff raff? Yn hytrach holwn beth ddywed aelodau'r Sanhedrim. Cofiwn mai hâd Abraham ydym ni. Yr ydym ni yn uniongred—wedi derbyn ein cred oddi wrth y rhai sydd yn eistedd yn nghadair Moses. Ie, dysgyblion Moses ydym ni. Ni a wyddom lefaru o Dduw wrth Moses; eithr hwn, nis gwyddom o ba le y mae efe. Daliwn sylw ar ei leferydd. Clywsom ef yn dywedyd geiriau cablaidd yn erbyn Moses a Duw, . . . y newidiai efe y defodau a draddododd Moses i ni. Prawf ddigon i ni nad yw y dyn hwn o Dduw yw y ffaith "nad yw efe yn cadw y Sabbath." Meddylier hefyd am ei honiadau rhyfygus a disail. "Bu Abraham farw, ac meddi di, Os ceidw neb fy ymadrodd i, nid archwaetha efe farwolaeth yn dragywydd. Ai mwy wyt ti nag Abraham ein tad ni?" Dyna farn uniongred y dydd hwnw.

Rhyfedd yw rhagfarn o hyd. Mae yn erbyn y newydd, gwell ganddi yr hen—yr hen gred, yr hen ddefod, yr hen broffwyd, Abraham, Moses. Megys yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon, ac y bydd yn wastad, yn oes oesoedd. Ond y mae oes newydd yn gofyn cred newydd, a heresi un oes yn dyfod yn gred mewn parch i oes ddiweddarach. Megys y mae'r plentyn yn tyfu ac yn gofyn gwisg newydd, felly y mae'r meddwl dynol yn eangu ac yn galw am ei gyfaddasu at ychwanegiad gwybodaeth. Felly dyma farn arall. Pe plant Abraham fyddech, gweithredoedd Abraham a wnaech. Heddyw mae'n haws proffesu'r gred na chyflawni'r weithred. Yr oedd proffes y Pharisead ar ryw ystyr yn ardderchog, yn degymu y mintys, yr anis, a'r cwmin, ond och, yn esgeuluso pethau trymach y gyfraith, sef barn a thrugaredd a ffydd. Oherwydd hyny syrthiodd yr enw Pharisead i amharch—Phariseaid, rhagrithwyr! Ie, yr oeddynt yn hidlo gwybedyn ac yn llyncu camel; yn adeiladu beddau y proffwydi ac yn addurno beddau y rhai cyfiawn; yn tystiolaethu eu bod yn blant i'r rhai a laddasant y proffwydi, ac yn dangos yr arwyddion, os caent y cyfleusdra, y cyflawnent hwythau hefyd fesur eu tadau; fel y delai arnynt yr holl waed cyfiawn a'r a ollyngwyd ar y ddaear, o waed Abel gyfiawn hyd waed Zecharias fab Barachias, yr hwn a

laddwyd rhwng y deml a'r allor. Dyna'r broffwydoliaeth. Fe ŵyr y darllenydd sut y bu.

Nid oedd Iesu yn iach yn y ffydd uniongred. A dweyd y gwir, ond dyweder e'n ddistaw, yr oedd yn heretic yn marn y lluaws. Nid oedd ganddo farn uchel am y Sanhedrim, ac yr oedd yn barod iawn, yn rhy barod yn ngolwg yr awdurdodau, i roddi llafar i'w farn. Nid rhyfedd—un o Nazareth oedd ac nis medrai y Shibboleth yn iawn. Yn wir nid oedd wedi cael manteision addysg yn iawn. Ni fu mewn coleg erioed, ac nid eisteddodd erioed wrth draed Shammai na Hillel.

Megys yr oedd yn y dechreu, y mae hyd heddyw—erlidir y proffwydi, cablir—feallai—ddanfonedigion y nefoedd, gan anghofio awgrym Gamaliel, "Ciliwch oddi wrth y dynion hyn, a gadewch iddynt; oblegid os o ddynion y mae y cyngor hwn, neu y weithred hon, fe a ddiddymir; eithr os o Dduw y mae, ni ellwch ei ddiddymu rhag eich cael yn ymladd yn erbyn Duw." Gwelodd y dorf yn dda i roddi clust o ymwrandawiad a chytuno y tro hwn; ond O! 'r trueni na fuasid yn wastad yn ceisio gweithredu ar yr egwyddor hon; yn lle hyny, meddylier am yr erlid sydd wedi bod drwy yr oesoedd, y tywallt gwaed ofnadwy, y rhyfeloedd creulawn—a hyny yn enw crefydd, yn enw tywysog tangnefedd.

Y mae yna hen weddel sy'n dweyd mai gwaed y saint yw hâd yr Eglwys. Cynllun y Babaeth yw ceisio gorfodi'r ufudd-dod. Gollyngwyd gwaed oes ar ol oes i'r pwrpas hwn, ac o'r diwedd daeth ffrwyth anysgwyliadwy—y meddwl Protestanaidd. Y mae egwyddor iachus wrth wraidd Protestaniaeth—rhydd i bob meddwl ei farn, ac i bob barn ei llafar. Yr oedd Paul eisoes wedi datgan egwyddor gyffelyb iawn, Profwch bob peth a deliwch yr hyn sy dda. Yr oedd Paul yn Brotestant cyson, peth na ellir ei ddywedyd gydag un gradd o wirionedd am haner Protestaniaid proffesedig ein dydd ni. Nid yw'r bobl yn gyffredin ddim yn ffyddlawn i egwyddorion eu Protestaniaeth. Hawliant ryddid iddynt eu hunain, ond ni chaniateir ef i eraill. Y rhyddid y maent hwy yn barod i'w roddi yw rhyddid cyffelyb i'r rhyddid sy gan yr afon i redeg i'r môr—rhyddid cyfyngedig rhwng glanau y credoau a'r cyffesion ffydd. Ie, gwae'r hwn na fedr redeg ei gwch y tu fewn i'r glanau hyn. Ni ellir ei losgi na'i garcharu heddyw, mae'n wir; ond pob peth hyd at hyny—rhoddir y *cold shoulder* iddo, boycottir ef, cablir ef yn mhob modd o fewn terfynau'r gyfraith wladol, a gwneir ei fywyd yn fywyd o ferthyrdod.

Fe basiwyd Deddf Goddefiad (*Toleration Act*) flynyddoedd meithion yn ol, ac yr oedd yn welliant ar y sefyllfa oedd pethau ynddynt yn flaenorol, ond erbyn heddyw ystyriwn mai haerllugrwydd digywilydd yw fod un creadur marwol yn cymeryd arno i oddef cydgreadur marwol arall i addoli Duw yn ol llais cydwybod. Dylem ganiatau i eraill yr un rhyddid ag a hawliwn i ni ein hunain.

Heddyw y mae'r bobl yn tyru ar ol y Parch. R. J. Campbell, M.A., wrth y canoedd, os nid wrth y miloedd; a'r sawl sy fwyaf cyfarwydd ag ef sy fwyaf eu canmoliaeth iddo. Y mae ei gapel mawr yn

orlawn, a lle bynag yr el ceir y dorf yn ei ddilyn. Efengyl gobaith yw ei efengyl—nefoedd yn fwy nag uffern, cariad yn fwy na chosp—Duw yn Dad, a dyn—pob dyn—yn frawd; ond y mae eraill yn amheu iachusrwydd ei ffydd, maent wedi rhogleuo heresi yn ei dduwinyddiaeth, a chlywir yr hen ofyniad eto, A hudwyd chwithau hefyd? A gredodd neb o'r penaethiaid ynddo? Y mae'r doctoriaid duwinyddol yn ei ddiarebu yn dost. Nid yw Forsyth a Fairbairn a Robertson Nichol ddim yn credu ynddo, ac y maent hwy yn awdurdodau diamheuol ar bwnc o athrawiaeth, a'r byn a ddywedir ganddynt hwy ydyw, a dywedant ef yn gloyw ac yn gryf, nad yw Mr. Campbell ddim wedi cael *training* mewn duwinyddiaeth. Os nad wyf yn anghofio'r cwbl, nid oes dim hanes fod Petr nac Iago nac Ioan chwaith wedi cael dim *training*. Ni fuont yn yr un ysgol ganolraddol na'r un coleg erioed, ac eto gwnaethant waith lled dda yn eu hamser.

Rhodder chwareu teg i Mr. Campbell. Ymddengys fod ganddo genadwri; caffed rwydd hynt i'w thraethu. Os yn unrhyw beth yn gyfeiliornus, ateber a dynoether ef, a thebyg na fydd neb yn falchach nag efe os caiff oleu newydd. Hawdd gwaith cablu a dylorni, ond pa les ddeillia o hyny? Y mae ei lyfr bellach yn ngwydd y byd, ac os gellir noder ei ddiffygion. Cyhoeddodd y Dr. John Taylor ei lyfr ar y "Pechod Gwreiddiol" yn 1740, a pharodd hwnw drafferth mawr i rai ar y pryd. Deisyfai un gweinidog parchus yn yr Iwerddon ar ei wrandawyr i beidio ei ddarllen, "Gan mai llyfr drwg oedd, llyfr peryglus, llyfr hereticaidd, a gwaeth na'r cwbl, yr oedd yn llyfr nas gellid ei ateb!" Fe allai fod llyfr Mr. Campbell i raddau mwy neu lai o'r un natur—yn un nas gellir ei ateb. Y mae'r gwir sydd ynddo yn debyg o sefyll, ac am bob peth arall—pob peth croes i'r gwir, fe dderfydd ac fe ddiflana, a goreu i gyd hyny. I derfynu cofier awgrym Gamaliel eto, ac edrychwn nas caffer ni yn ymladd yn erbyn y gwirionedd ac yn erbyn Duw.

Q.Q.

Y GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMREIG.

Pan ar fyned i'r wasg nid ydyw dyddiad na threfniadau y Cyfarfodydd Blynyddol gynhelir yn Hen Dŷ Cwrdd, Aberdar, wedi d'od i law. Gadawyd yr holl drefniadau yn llaw yr eglwys a'r gweinidog. Yr oll wyddom ydyw mai yn Aberdar y'u cynhelir, ac mai y Parch. E. Gwilym Evans, B.A., Dukinfield ydyw y pregethwr apwyntiedig. Cyhoeddir hwy trwy ryw gyfrwng arall os bydd y dyddiad cyn ymddangosiad y rhifyn nesaf. Gobeithio y gwna pawb ymdrech i ddanfon eu tanysgrifiadau a'r casgliadau i mewn ar unwaith. Hefyd y taliadau am YR YMOFYNYDD fel ag i'w cynwys yn y Fantol-len gyflwyna'r trysorydd i'r cyfarfod blynyddol.—GOL.

Y DDUWINYDDIAETH NEWYDD: EI THARDDIAD A'I HARWYDDOCAD.

Nid rhywbeth diweddar, newyddanedig, yw'r hyn a elwir yn "Dduwinyddiaeth Newydd." Hyd yn nod yn Lloegr, mae wedi bod yn brydianu dan y wyneb er's amryw ddegaidau—yn mhell cyn i Mr. Campbell ddechreu esgyn grisiau unrhyw lwyfan. Dywed Mr. Rhondda Williams ei fod ef yn ei phregethu er yn gynar yn ei weinidogaeth; ac y mae hyny bellach yn ol tua chanol yr haner olaf o'r ganrif ddiweddaf. Gellid enwi amryw eraill fuont yn leisiau yn gynarach fyth. Efallai nad oeddynt, neb o honynt yn leisiau cryf iawn; ond er hyn, yr oeddynt yn dreiddiadwy, yn raddol aeddfedu meddyliau y rhai a ddelent dan eu dylanwad ar gyfer dognau cryfach o heresi. Felly y mae yn wastad. Yn mhell cyn i unrhyw fudiad dynu sylw cyffredin, mae dylanwadau dystaw yn parotoi'r ffordd. Dyna fel y bu yn adeg ymddangosiad Cristionogaeth; yn y diwygiad Protestanaidd; yn amrywiol ddiwygiadau Lloegr a Chymru; ac nid llai felly yn y deffroad meddyliol y mae'r mudiad presenol yn ffrwyth o hono. Nid yw Mr. Campbell ac ereill o'i gyd-lafurwyr ond wedi myned i fewn i lafur eu rhagflaenwyr, enwau y rhan fwyaf o'r rhai ydynt erbyn hyn bron wedi eu llwyr anghofio. Tebyg na chydnabyddir hyn yn fwy ewyllysgar gan neb na chan Mr. Campbell ei hun.

Nid yn Lloegr, fodd bynag, y daeth y Dduwinyddiaeth Newydd i fodolaeth gyntaf, ond yn yr Amerig. Yn mhell cyn bod yr un sî am dani yn y wlad hon, yr oedd yn fudiad nerthol yn yr Unol Dalaethau—yn mhlith y Cynulleidfaolwyr Iawnffyddol yn benaf efallai. Mae ger fy mron pan yn ysgrifenu lyfr a elwir "*The Freedom of Faith*," gan Dr. Munger,—cyfrol o bregethau. Fel rhagarweiniad iddo ceir traethawd yn dwyn yr enw—'Y Dduwinyddiaeth Newydd." Yn nechreu y traethawd hwn, dywed yr awdwr mai ei amcan yw rhoi mynegiad i rai o brif nodweddau y ffurf hono o feddwl a adnabyddid yn gyffredin fel y "Dduwinyddiaeth Newydd," nodi allan y llinellau ar hyd y rhai y symuda, datgan rhywfaint o'i hyspryd, a rhoi iddi ffurf benodol. Gwelwn, felly, fod y mudiad eisoes, (cyn 1884) yn un digon nerthol i haeddu'r ymgais hon ar du un o dduwinyddion blaenaf yr Amerig i'w ddeffinio. Gallwn, yn wir, fyned gryn dipyn yn nes yn ol na hyn. Credwn mai un o apostolion enwocaf y mudiad—yr un o bawb sydd fwyaf cyfrifol am ei fodolaeth—yn yr Amerig oedd y diweddar Ward Beecher. Bu efe yn wrthddrych drwgdybiaeth ei frodyr iawnffyddol drwy ei oes—drwgdybiaeth a orphwysai ar sail ddigonol. Rhyngddo ef a Mr. Campbell tybiwn y gwelwn gryn lawer o debygolrwydd. Pan yn darllen pregethau Campbell wythnos ar ol wythnos, adgofiant ni am bregethau Beecher yn fwy nac eiddo neb arall wyddom am dano. Medd y ddau yr unrhyw duedd athronyddol, yr unrhyw yspryd rhyddfrydig, a'r unrhyw ddewrder i gyhoeddi'r gwirionedd fel y deallant hwy ef.

Gwelwn, felly, fod y "Dduwinyddiaeth Newydd" ar y bwrdd er's cryn amser; eithr dim ond at gylch cyfyng yr apeliai. Ni freuddwydiai'r mwyafrif mawr o Gristionogion ddim am ei bodolaeth. A rhaid oedd wrth ddyn o bersonoliaeth Mr. Campbell i enill sylw cyffredin ati—i beri i ddynion (yn dduwinyddion a lleygwyr) i roi gwrandawiad i'w chenadwri. Yn debygol, ni fu cymaint o siarad ar bynciau duwinyddol er's canrifoedd. Dyna glywir ar bob llaw. Pan yr ymgyferfydd dau gyfaill, tebyg na ymadawant cyn i un ofyn i'r llall,—"Beth yw eich barn am y Dduwinyddiaeth Newydd?"

Y mae hyn ynddo ei hun yn enill. Perygl mawr ein cenedl oedd syrthio i'r cyflwr meddwl—neu, o ddiffyg meddwl—yn yr hwn nad apeliai dim at ddynion ond yr hyn sydd faterol. A gwerthfawr yw unrhyw gyfrwng a gwyd y meddwl oddiwrth y materol at yr ysprydol. Gan nad pa dynged a erys y mudiad newydd, y mae eisoes wedi gwneud hyn o ddaioni ; mae wedi peri i ddynion na feddylient ddim am bethau crefyddol o'r blaen i feddwl o ddifrif am y fath bynciau a Duw a'r bydysawd, dyn a'i dynged, Iesu Grist a'i waith.

Ond beth, wedi'r cyfan, yw arwyddocâd penaf y "Dduwinyddiaeth Newydd?" Pan y daeth i sylw arbenig y gauaf diweddaf trwy Mr. Campbell, credai y rhan fwyaf o Undodiaid fod egwyddorion ac yspryd y mudiad yn Undodaidd—fod syniadau mwyaf blaenllaw ac yspryd nodweddiadol y "Dduwinyddiaeth Newydd" o'r un natur ag a arferem ni gysylltu â'r gair Undodiaeth. A chan lawer hefyd, hawlid Mr. Campbell ei hun fel Undodwr. Ni fynai efe, fodd bynag, ddim o'r enw. A haerai nad Undodiaeth oedd yr hyn ddysgid ganddo. Mewn canlyniad i'w wrthodiad pendant o'r ddau enw hyn, tybiem nad oedd wedi rhoi datganiad cyflawn o'i syniadau. Anhawdd gwneud hyn mewn un bregeth, nac ychwaith mewn cyfres o bregethau. Ar ol darllen ei lyfr a ddaeth allan o'r wasg tua chanol Mawrth, yn yr hwn y proffesai roi eglurhad cyflawn o'i safle, gwelsom nad oeddem yn mhell o le yn ein casgliad cyntaf wedi'r cyfan ; hyny yw, mae bron yr oll (nid *yr oll* efallai) o'i gynwys yn gyfryw ag y gall y rhan fwyaf o Undodiaid roi cydsyniad calonog iddo. Ond gan na fyn Mr. Campbell mo'i alw yn Undodwr na'r hyn a gredir ganddo yn Undodiaeth, ni wthiwn yr enwau hyn arno. Nid yw'r enw ddim ; yr hyn a gynrychiolir gan yr enw sydd bwysig. Byddai arogl y rhosyn yn llawn mor beraidd pe gelwid y pren y tyf arno yn ysgallyn neu yn ddrysïen.

I'r gofyniad uchod parthed arwyddocâd y "Dduwinyddiaeth Newydd," nid yr un ateb roddid gan bawb. Ar ol dilyn cwrs y mudiad newydd yn weddol fanwl yn ystod y misoedd diweddaf, ymddengys i ni mai yn y modd a ganlyn y gellir desgrifio ei arwyddocâd yn oreu : fod dynion deallgar a meddylgarol yn dechreu d'od i gydnabod fod dadguddiad, nid yn ddigwyddiad a gymerodd le unwaith am byth ganrifoedd lawer yn ol, ond yn gyfres o ddigwyddiadau nad oes terfyn arnynt ; mai dyledswydd dyn yw rhoi croesaw i bob dadguddiad gwell ; ac mai amcan penaf y cwbl yw dwyn yn nes sylweddoliad cyflawnach o'r ddelfryd ddelir o flaen yr hil ddynol gan Iesu Grist—teyrnas Dduw yn y bywyd ac yn y gymdeithas ddynol. Ni ellir deffinio'r fath fudiad a hyn ; oherwydd, mor gynted ag y gwneir y cyfryw ymgais, bydd y deffiniad yn henbeth. Lle bynag y cydnabyddir yr egwyddor o gynydd, mae deffiniadau yn dod yn ddiamcan a diwerth. Os iawn ydym yn ein darlleniad o arwyddocâd y mudiad presenol, credwn mai dymuno yn dda iddo wna pob Undodwr. Ac os y bydd yn gyfrwng i arwain Cristionogion i safle yn yr hon y bydd yr angen am y fath eiriau a Thrindodiaeth ac Undodiaeth wedi diflanu, ni lawenycha neb oherwydd hyny yn fwy na ni.

SYLWEDYDD.

HUMPHREY BROMLEY.

Dyma enw dybiaf na ŵyr Undodiaid Cymru nemawr ddim am dano, ac o bosibl carant gael tipyn o'i hanes. Gogleddwr oedd a Wesleyad selog, ac am chwech neu saith mlynedd yn gwasanaethu fel pregethwr teithiol yn y cyfundeb. Haf 1821 daeth tro pwysig yn ei hanes. Yr oedd wedi clywed fod Robert Lloyd, siopwr yn Llanrhaiadrynmochnant, y dref lle yr oedd yntau yn byw, wedi myned ar gyfeiliorn yn ei gred grefyddol. Trodd Mr. Lloyd yn Undodwr pan yn Llundain trwy fyned i glywed un Mr. Vidler yn pregethu. Teimlai dosturi drosto yn naturiol ac awydd i'w ddychwelyd yn ol i'r iawn ffydd. Bu llawer dadl cydrhyngddynt, a Bromley wrth gwrs yn cael y trecha o hyd. Yr oedd yn gryf ac yn gadarn ei gred ar ol pob ymgom. Rhoddodd Lloyd draethodyn bychan iddo i'w ddarllen. Gosododd yntau ef yn mhoced ei frest, a chyffesai yn ol llaw ei fod yn teimlo fel pe byddai'r traethodyn yn llosgi ei groen, a themtiwyd ef yn gryf i'w daflu ar y naill du ; ond yr oedd wedi addaw ei ddarllen ac yr oedd yn rhy onest i beidio cadw ei air. Darllenodd ef drosto yn fanwl, ac ystyriai mai gwan iawn oedd ei osodiadau, nad oedd ynddynt ddim nas gallai eu dymchwelyd yn rhwydd. Er mwyn bod yn alluog i wneuthur hyny yn foddhaol fe'i darllenai drachefn. Gwnaeth hyny, ac fel mae'n rhyfedd fe allai i feddwl, yr oedd y dasg o'i flaen wedi myned yn fwy anhawdd. Yr oedd yn y traethodyn amryw bethau erbyn hyn nas medrai eu hateb yn foddhaol. Darllenodd ef y drydedd waith gyda'r canlyniad tost—tost yn ngolwg ei gyfeillion—i'r traethodyn ei orchfygu ef fel y gorfu iddo gyffesu ei hunan yn Undodwr.

Ac fel Undodwr y mae iddo hanes dyddorol iawn. Yr oedd yn selog fel Wesleyad, y mae'n parhau yn selog fel Undodwr. Yr oedd yn berffaith argyhoeddedig o wirionedd a phwysigrwydd ei broffes newydd, a theimlai'n sicr fod llwyddiant buan yn ei haros. Rhoddir sylwedd yr hanesyn blaenorol ar adroddiad y diweddar Barch. John Jones, Aberdar, ac ysgrifenir y gweddill ar sail rhyw ugain o lythyrau a gafwyd ar ol y Parch. John James, Gellionen, at yr hwn yr ysgrifenwyd y rhif amlaf o honynt, ac a drosglwyddwyd i awdwr y llinellau hyn gan y Parch. T.T. Dyddiad y llythyr cyntaf yw Gorphenaf 8, 1823, a'r olaf Hydref 16, 1851.

Yn naturiol edrychid arno gan ei hen gyfeillion fel heretic peryglus—mwy peryglus oherwydd ei sêl a'i ymdrech diflino i ddychwelyd pobl eraill i'w ffordd ei hun o feddwl.

Yn ei lythyr cyntaf ysgrifena fel hyn :—"Er pan wyf wedi dechreu pregethu yr wyf wedi cael mawr le i ryfeddu fod pobl mor esgeulus i chwilio am y gwirionedd. Yr wyf wedi gwneud pob peth allwn i ei feddwl tuag at gynhyrfu eu meddiadau i chwilio yr Ysgrythyrau drostynt eu hunain." Ar ddiwedd y llythyr gwahodda Mr. James i ymweled ag ef ac ychwanega "Y mae genyf blentyn i'w bedyddio. Prysurwch rhag y bydd iddi farw, oblegid y mae rhai gyda ni yn meddwl mai bedydd ydyw yr unig ddrws i'r nefoedd."

Yr oedd Mr. Bromley y pryd hwn yr unig bregethwr Undodaidd yn y Gogledd. Ychydig o Undodiaid welwyd erioed yno. Gwnaeth Bromley ymdrech ddifrifol i ychwanegu at eu rhif. Yn 1822, cyhoeddodd bregeth ar "Unoliaeth Duw" (gweler YMOFYNYDD 1876, tud. 9.) Tebyg mai trwy ei ddylanwad ef yn benaf yr aeth y Parch. D. John ar ei daith genadol i'r Gogledd. Pregethodd dair gwaith yn Llanrhaiadr, unwaith yn Llanwyddyn a dwywaith yn Llangynog. Daeth llawer yn nghyd i'w wrando ond nid oes hanes fod yr hâd wedi dwyn ffrwyth. Pregethai

Bromley bob Sul yn Cefncoch ac yn Bwlchyddaer, ac aethai'n fynych ar draws Sir Ddinbych, Trefaldwyn a Meirionydd i draethu'r genadwri Undodaidd.

Pan yn pregethu yn un man, gyda gradd o lwyddiant, mae'n debyg, neu ni fuasai eisiau ei aflonyddu, darfu i'r Wesleyaid fyned at berchen y tŷ a'i ddarbwyllo i'w wrthod iddo. Yr oedd wedi bod yn pregethu yno ar "Adferiad (1) Eglurhad o'n syniadau ar y pwnc. (2) Prawfiadau o'n syniadau (*a*) oddiwrth garitor adnabyddus Duw, (*b*) diben cosp yn gyffredinol. (*c*) prawfiadau dynol yn ei radd uwchaf o berffeithrwydd yn y sefyllfa hon, ac (*d*) oddiwrth destunau neillduol o'r Ysgrythyr. (3) Cydmariaeth o effeithiau ymarferol diweddol ac anniweddol boenau."

Cynaliai Ysgol Sabbothol yn yr hon y dysgai Gymraeg a Saesneg, darllen, ysgrifenu, a rhifyddiaeth. Eglurai ddefnydd yr atalnodau, dysgai ramadeg y geiriau, yn nghyd ag ystyr yr hyn a ddarllenid. Rhoddai wobrwyon am ddysgu rhanau o'r Ysgrythyr. Credai ei fod yn gwneuthur gwaith defnyddiol yn y cyfeiriad hwn Os cofiwn yn iawn bu'r enwog (wedi hyny) Robert Ellis (Cynddelw) yn mynychu y dosparth hwn. Gweler Cofiant Cynddelw gan Spinther. Mynych y cawn eiriau tebyg i hyn yn ei lythyrau—"Tra ragorol oedd genyf glywed oddiwrthych, megys ag y gallwch feddwl, pan ystyriwch fy amddifadrwydd o gyfeillion crefyddol yn nghyd a'r parhaus wrthwynebiadau sydd i mi."

Fel hyn y desgrifia y rhwystrau ar ffordd llwyddiant Undodiaeth :—"Dysgawdwyr crefyddol yn crochlefain yn erbyn Sociniaid, diffyg medrusrwydd y cyffredin i wahaniaethu rhwng gwirionedd a thwyll, yn gystal ag esgeulusdra i ddefnyddio'r medrusrwydd sydd ganddynt, ymlyniad y cyffredin, o ddiffyg zel, wrth ryw farn neillduol, heb un gradd o ymofyniad am ei gwirionedd, ofn yn y rhan fwyaf mai temtasiwn Satan i'w hudo i drueni ydyw neb a rhyw duedd i dybied fod Undodiaeth yn wirionedd, ymlyniad y lluaws wrth y blaid luosocaf, y gwarth o addef Undodiaeth a diffyg zel i dori drosodd mewn cysylltiad a'm anfedrusrwydd inau i arferyd y ffordd fwyaf lwyddianus. Eto, gwelaf le cadarn i fod yn dawel a hyderus o herwydd 'y mae amser i bob peth—Efe a wnaeth bob peth yn dda yn ei amser,' ac yn ddiau fe gaiff pob peth weithio er daioni," &c.

Yn 1830, dywed fod cyfleusderau pregethu yn cyfyngu arno. Ceidw wasanaeth grefyddol rheolaidd gartref fodd bynag, a gweinydda'r cymundeb i'w deulu. Gofyna farn Mr. James ar y mater olaf. Teimla ei hun fod hyny yn rhoddi cyfleusdra iddo i ddywedyd rhai pethau na fedrai wneud mewn cyfarfod pregethu. Ymddengys yn hapus y tro hwn ei fod wedi cael cyfaill newydd —gwr o Gaernarfon a ddaeth i'r ardal i weithio, ac y mae gobaith y bydd iddo droi yn Undodwr. Yr oedd y brawd wedi darllen pregeth Bromley yn flaenorol, ac yn naturiol y mae'n ceisio am dano. Gwelant lawer o'u gilydd. Tawdd y teimladau i gyfeillgarwch gwresog a'r syniadau i berffaith gydymdeimlad. Martin Vaughan yw enw'r cyfaill a chymer ran yn y gwasanaeth teuluaidd.

Yn 1831, denfyn ei fab hynaf, Humphrey Bromley, i'r ysgol i Gribyn at y Parch. Rees Davies, Capelygroes a'r Parch. J. Jones (wedi hyny o Aberdar.) Dengys hyn arwydd o'i deimlad at ei frodyr crefyddol. Trafferth o hyd sy' gartref. Traddoda gyfres o ddarlithiau eto, ac wele'r Wesleyaid eto'n taflu rhwystrau ar ei ffordd ; ond y mae o hyd yn toii cynlluniau newydd o ddefnyddioldeb. Meddai, "Wyf wedi sefydlu 'Cymdeithas Gyfeillgar Ryddymofynol' yn yr hyn yr wyf wedi bod yn hynod lwyddianus."

Tachwedd 5, 1832—Sonia am fyned i America. Mae masnach yn isel, gwasgfa amgylchiadau'n cynyddu, moddion cynaliaeth yn prinhau, ac yntau yn suddo i ddyled. Tebyg fod cost mewn cysylltiad a'i lafur cenad-

ol. Ni ellir dim heb draul. Penderfyna werthu ei oll, talu ei ddyledion, ac yna ymfudo.

Mai 28, 1833—Heb gychwyn eto. Mae wedi talu ymweliadau achlysurol yn y gorphenol â rhai o'n heglwysi ac y mae'n amlwg fod yna deimlad cynes tuag ato. Ceir tinc o hapusrwydd yn ei lythyrau pan y mae gobaith am gwrdd cwarter a'r gwrthwyneb pan mae y rhwystrau yn ananorfod. Mae'n dioich am y swm o £2 11s. 6c. o Gellionen a'r swm o £2 3s. 6c. o Bantdefaid. Y mae ei deimlad o ddiolchgarwch yn llifo drosto y tro hwn. Y mae pawb gartref, hyd y nod y Ficer a'i Gywrat wedi bod yn garedig. Cyrhaeddodd swm y gwerthiadau lawer mwy nag a ddysgwyliasai—£66. Y mae'r teulu yn bump mewn oed a thri dan 14eg.

Awst 17, 1833, ysgrifenŷa Martin Vaughan mewn galar. Mae wedi colli ei gyfeillion goreu—Humphrey a Jane Bromley a'u teulu. Y mae yn awr heb un cyfaill Undodaidd ac yn byw mewn ardal elyniaethus lle yr edrych pawb arno fel heretic peryglus. Eto y mae'n sugno cysur oddiwrth y syniadau aruchel a ddysgodd gan Humphrey Bromley. Cynaliwyd cwrdd gweddi yn nhy H.B. Mai 5, darllenodd H.B. y benod ddiweddaf o'r Philipiaid, a gweddiodd M.V., a Thos. Rogers a H. Bromley ieuaf, a chafwyd cyfarfod diddanus iawn. Mai 22, cychwynasant ar eu taith hir. Aeth M.V. gyda hwy hyd Lerpwl, ac ar y 24ain ffarwelia a hwynt. Gedy H.B. iddo luaws o lyfrau gwerthfawr. Parheir y cyfarfodydd gweddi bob Sul gan Martin Vaughan.

Ionawr 27, 1834. Desgrifia Bromley helyntion ei fordaith mewn llythyr hir. "Flwyddyn yn ol," meddai yn drist, "yr oeddwn gyda chwi a'n cyfeillion yn y Deheudir, ac wele fi heddyw ar ol croesi môr a thir yn Lledred 41° 16 or. a Hydred 82° 33 o Lundain." Angorasant yn New York Gorph. 25. Dywed fod pobl grefyddol ei ardal newydd mor anffaeledig a'r hen. Cyfeiria at yr Universaliaid a desgrifia hwy fel yn gwrthod credu mewn cosb o un math yn y byd dyfodol.

Mai 3, 1834. Y mae John James yn ddiolchgar am ei lythyr. Bydd y cyfarfod blynyddol nesaf yn Mhantdefaid—Davis o Gastellnedd i bregethu. Pwnc y Gynadledd: Dyn wrth natur, dyn dan Ras. Ni wyddai John James fod yr Universaliaid yn gwrthod y syniad o gosp ddyfodol. "Byddai llawer yma yn caru hyny—byddant yn fwy llawen os nid yn fwy aml a rhyfygus yn eu drwg."

Mai 25, 1844. Y mae deng mlynedd er y clywodd o'r hen wlad. Yr oedd wedi ysgrifenu lawer gwaith at Mr. Rees Davies; Rees, Cilgell; Evans, Loyd jack, ond heb gael ateb, ond y mae'n gobeithio cael ateb y tro hwn, ac y bydd i'r llythyr hwn gyrhaedd cyn y cwrdd blynyddol. Carai'n fawr fod yn bresenol, ond nis gall hyny fod byth mwy. Ychydig Undodiaid mae wedi gwrdd, a'r rhai hyny nid ydynt at ei chwaeth. Yr oedd wedi pregethu iddynt, ac wedi cael fod gwahaniaeth mawr cydrhyngddynt. Teimlai nad oedd yn ddigon o feistr ar y Saesneg i wneuthur cyfiawnder a'i bwnc. Bu mewn dadl yn mis Awst â Methodyn. Pregethodd hwnw oddiar—"Hearken unto me and I also will tell my opinion." Yr un prydnawn, pregethodd yntau oddiwrth—"The first in his cause is supposed to be just, but his neighbour cometh and searcheth him out." Arweiniodd hyn i ddadl wresog ar "Boenau Tragwyddol" fis yn ddiweddarach. Y Sul diweddaf cefais y cyfleusdra am y tro cyntaf i fod yn bresenol mewn cwrdd Undodaidd (yn Buffalo). Y mae yno gapel hardd a chynulleidfa luosog a gweinidog da. Ar yr adeg hon yr oedd Bromley yn actio fel peirianydd ar yr agerlong Columbus.

Ionawr 29, 1851. Y mae un flynedd ar bymtheg er y clywodd ddiweddaf. Nid yw yn gwybod a yw John James byw, ac nid yw yn deall paham nad yw wedi clywed. Y mae'r hen gyfeillion oll yn anwyl

iawn ganddo. Ofna ei fod yn rhyw fodd wedi troseddu ac nid yw yn deall sut. Os tybir ei fod wedi gollwng ei Undodiaeth dros gof, fe'i camddeallir yn fawr. Y mae'r syniadau Undodaidd mor anwyl ganddo ag erioed. Ymunodd a'r Universalaid er mwyn cyfleusdra, ac nid oes un gwahaniaeth o bwys cydrhyngddynt â'r Undodiaid. Y mae ganddynt 700 o weinidogion yn y Talaethau. Bu farw ei fab Humphrey yn haf 1849. Cawn mewn llythyr arall ei fod yn 16 yn Mai 1833, felly casglwn ei fod yn 32 yn marw. Y tu allan i'r llythyr hwn y mae'r cyfarwyddyd a ganlyn: "Should Mr. James not be found, any Unitarian minister is authorised to take and open."

Hydref 16, 1851. Dyma ddyddiad y llythyr diweddaf. Y mae wedi derbyn llythyr Mr. James gyda llawenydd mawr. Mae'n ddiolchgar am newyddion, ond y maent o'r un natur o bob cyfeiriad—cyfeillion yn marw! Dywed ei fod yn pregethu ar yn ail Sul yn yr eglwys Universalaidd. Y mae saith o'i dŷ ef yn mynychu'r addoliad. Y mae ei fab, nesaf at Humphrey, yn enill 2½ doler y dydd, wedi claddu ei wraig a chanddo dri o blant. Ganddo fab o'r enw John James. Hyd yma y mae ein defnyddiau yn ein cario, a charwn ofyn, Beth yw'r wers i'w dysgu oddi wrthynt.

T.C.U.

CEWRI CYNYDD Y CENHEDLOEDD.

IV.—Plato.

Gan y Parch. J. E. Manning, M.A., Athraw yn yr Home Missionary College, Manchester.

(*Gweler 'Ymofynydd' Rhagfyr, 1906.*)

Ysgrifenodd Plato ei "Weriniaeth" oddiar deimladau o ddiflasdod ac anobaith yn ngwyneb sefyllfa drist pethau yn Athen ar y pryd. Yr oedd wedi blino ar y ffug, y twyll a'r moesoldeb isel yn mhob man oddiangylch iddo yn y llywodraeth, mewn masnach ac yn y bywyd cymdeithasol. Trodd ymaith oddiwrth y cwbl, gadawodd holl gysylltiadau diraddiol y presenol tucefn iddo, ac aeth yn mlaen i adeiladu drosto ei hun Wladwriaeth newydd, yn ol cynllun dwyfol a pherffaith fel y meddyliai ef—cynllun hollol anymarferol fel y cydnabyddai efe ei hun, ond un ag y byddai yn bosibl i lywodraethau y byd i edrych i fyny ato fel delfryd. Delfryd oedd mewn gwirionedd o braidd i gael ei sylweddoli byth mewn byd anmherffaith. Yr oedd yn rhydd oddiwrth bob anmherffeithrwydd a fodolai ar y pryd yn ol ei dyb ef. Yr oedd yn gynllun Platonaidd perffaith, a dylai fodoli mewn modd sylweddol pe byddai dynion wedi cyraedd eu perffeithrwydd. Rhinwedd a doethineb yn unig sydd i gael blaenoriaeth yno; a dim ond y rhai sydd ddoeth yn

gystal a rhinweddol ydynt i gael cyfran yn y llywodraeth. Mor arderchog fyddai pe gallem sicrhau gwasanaeth llywodraethwyr doeth a rhinweddol! Mae pob un i gael ei addysgu yn drwyadl; yn y modd hyny mae'n bosibl i ddiwreiddio pob drwg ac anwybodaeth a gwneyd y bobl yn gymhwys ar gyfer llywodraeth. Mae addysgu y bobl yn ddyledswydd ar ran y llywodraeth, a dylai llywodraeth edrych a darparu y moddion angenrheidiol fel y byddo pob plentyn i gael yr addysg briodol o'i fabandod. Gesyd Plato i lawr reolau i ddangos sut mae hyn i gael ei wneud. Dylai addysg plant fod ar y llinellau canlynol:—

O 1—2 flwydd—Gofal am y corff.
O 3—6—Adrodd chwedlau (*Fairy Tales*).
O 7—10—Diwylliant Corfforol (*Gymnastics*).
O 10—13—Darllen ac Ysgrifenu.
O 14—16—Barddoniaeth a Cherddoriaeth.
O 17—18—Meintoniaeth (*Mathematics*).
O 18—20—Hyfforddiad Milwrol.

Pan yn ugain oed daw y penodiad cyntaf o ddyledswyddau a galwedigaethau ydynt yn cyfateb i gymhwysderau personol. Erys y rhai israddol o ran gallu i fod yn filwyr neu lafurwyr. A eraill ydynt yn addas yn mlaen at y gwyddorau. Pan yn ddeg ar hugain oed, daw yr ail benodiad. Gosodir y rhai israddol i weithio mewn canghenau gwahanol o fywyd ymarferol, masnach a swyddi cyhoeddus. Bydd eraill yn astudio Rhesymeg ac Areithyddiaeth o 30—35, a gosodir hwy o 36—50 mewn lleoedd o gyfrifoldeb ac awdurdod cyhoeddus. Ar ol hyn mae y dyledswyddau a benodir iddynt yn ymwneyd a'r llywodraeth, yr astudiaeth feunyddiol o athroniaeth, myfyrdod ar y daioni uwchaf gyda'u golygon yn sefydlog yn barhaus ar ddelfryd aruchaf y dinesydd.

Amcan y cynllun yw sicrhau y mwyaf cymhwys ar gyfer y safleoedd uwchaf. Mae y tair prif swyddogaeth yn y wladwriaeth yn cyfateb i'r tri gallu yn yr enaid: ac mae gan bob un ei rinwedd cyfaddas. (1) Cyfateb y llywodraethwyr i ran wybodol (*cognitive*) yr enaid, rhinwedd neillduol yr hon ydyw doethineb. (2) Cyfateb y gwarcheidwaid neu y milwyr i'r rhan ddewr o'n natur, rhinwedd yr hon yw dewrder neu wroldeb. (3) Mae y gweithwyr, crefftwyr a'r llafurwyr, yn cyfateb i ran ddymuniadol ein natur, rhinwedd yr hon yw cymedroldeb neu hunan-lywodraeth. Mae y llywodraethwyr i lafurio yn unig er mwyn sylweddoli y gwir a'r da. Y wladwriaeth ddelfrydol yw yr un ag y bydd athronwyr yn llywodraethwyr ynddi, neu y llywodraethwyr yn athronyddu yn iawn. Rhaid i ddeall a rhinwedd perffaith fod yn oruchaf.

Gesyd Plato gymaint pwys ar y wladwriaeth yn ymgymeryd ag addysg yr ieuainc fel mai'r canlyniad ymarferol yw nad yw plant ddim yn perthyn i'w rhieni ond i'r wladwriaeth. Rhaid i bob peth roddi ffordd i hawddfyd y wladwriaeth. Amcan llywodraeth yw sicrhau nid dedwyddwch y dyn unigol, ond y cyfangorff. Rhaid cymeryd dynion yn eu cymhwysder cymdeithasol, nid fel dynion ond fel elfenau mewn cymdeithas; a'r unig wahaniaeth rhwng y dinesydd perffaith a'r caethwas yw mai meistr y blaenaf yw y wladwriaeth. Gwada Plato hawl personol eiddo—perthyn pob eiddo i'r wladwriaeth. Rhaid i'r unigolyn fod yn foddlawn ar yr hyn a berthyna iddo fel rhan o'r oll, a dim ond hyny. Yr oedd eiddo a nwyddau i fod yn gyffredin, a chymeradwya Plato yn y modd hyn, yr hyn a dreiodd yr Eglwys Gristionogol ac a gafodd allan ei fod yn hollol anymarferol. Dywed ef y dylai pob peth mewn gwladwriaeth berffaith fod yn gyffredin, llawenydd a thrallod, pobpeth hyd yn nod llygaid, clustiau a dwylaw.

Pa mor fynych oddiar ddyddiau Plato y ceisiwyd gosod mewn ymarferiad y delfryd hwn o gymdeithas. Yr oedd adfywiad mawr mewn darllen Plato ar adeg y chwyldroad

Ffrengig. Mae egwyddor wreiddiol Communistiaeth yn nelfryd Plato, ond mae wedi methu yn mhob man. Y gwirionedd yw, nad yw yn natur dyn i ddarostwng ei hun o dan gynllun cyffredinol. Mae ef yn unigol, ac nis gall dim ei wneud yn amgen. Dyna paham y metha pob cynllun ag mae dyn wedi dreio i gael pob peth yn gyffredin. Ni chyrhaeddir y daioni cyffredin, ond trwy fod pob dyn yn datblygu hyd yr eithaf y galluoedd, y cyfleusderau a'r talentau mae Duw wedi roddi iddo.

Dywedir i Plato fyned i Sisili er mwyn gosod ei ddelfryd, os yn bosibl, mewn ymarferiad. Yr oedd Dionysius, y gormes-deyrn, yno ar y pryd yn sathru ei bobl o dan draed haiarnaidd ei orthrwm. Gobeithiai Plato ei droi at ei syniadau ei hun. Cafodd gyfleusdra i ymddiddan ag ef; treuliodd ei amser i siarad yn gyhoeddus ar ei hoff bynciau—dedwyddwch y rhinweddol, a thrueni anocheladwy y drygionus, nes y swynwyd pawb a'i clywsant gan ei hyawdledd—gyda'r eithriad o'r gormes-deyrn ei hun, yr hwn, mewn natur ddrwg a orchymynodd iddo gael ei gymeryd i'r farchnadfa a'i werthu fel caethwas i'r cynygiwr uwchaf, er mwyn iddo gael cyfleusdra i osod ei athroniaeth ar brawf a barnu drosto ei hun a oedd y dyn rhinweddol yn parhau i fod yn ddedwydd mewn cadwynau ac yn y carchar. Gwerthwyd Plato mewn canlyniad, ond prynwyd ef i mewn gan ei gyfeillion.

Ugain mlynedd yn ddiweddarach, ar ol i'r gormes-deyrn farw, derbyniodd Plato wahoddiad taer oddiwrth ei fab i ddyfod drosodd er mwyn diwygio y wladwriaeth. Er cymaint o athronydd oedd Plato nid oedd yn ddigon call i wrthod y cynyg. Aeth, ond nid heb betruso llawer, a chafodd ei dderbyn gyda phob arwydd o ffafr. Aeth pob peth yn mlaen yn iawn ar y cyntaf; dechreuodd diwygiad i fyned yn mlaen yn moesoldeb y llys, aeth y gwleddoedd brenhinol yn llai aml; cyfnewidiodd natur yr ymddiddan; daeth Mesuroniaeth (*Geometry*) gymaint i'r ffasiwn fel na welid yn y llys ddim ond trionglau, cylchau, a ffigyrau eraill wedi eu holrhain ar y tywod. Derbyniodd y gwr ieuanc, Dionysius, y fath argraff oddiwrth hyawdledd Plato, fel y chwenychai sefydlu rhyddid diamodol ac estyn goddefiad i bawb. Ond nid oedd gan Plato ymddiried yn ei sel. Yr oedd ei natur fel yr hâd ar y creigleoedd—nid oedd ganddo wreiddyn ynddo ei hun. Ceisiodd Plato ganddo yn gyntaf ddiwygio ei hun. Y canlyniad oedd iddo gael allan mewn ychydig amser fod y ddysgyblaeth Blatonaidd yn brofedigaeth rhy lym i'w natur wan a gloddestgar. Yr oedd yn anmhosibl i Plato wneud unrhyw ddaioni, ac wrth ymadael dywedodd Dionysius, "Pan y byddi di yn yr Academi gyda'th ysgolheigion, byddi yn sicr o siarad yn ddrwg am danaf fi." Atebodd Plato, "Na atto Duw i mi gael digon o amser i'w wastraffu yn yr Academi i feddwl am Dionysius o gwbl." Fel yna yr oedd delfryd werinol Plato yn gweithio allan yn ymarferol yn ei oes ei hun.

DYN GWAMAL.

(*Ail-oreu Eisteddfod Llanymddyfri, Llungwyn.*)

Pwti o ddyn, pàt, diddal—erch gorach
Gwyrog, yw dyn gwamal;
Direol fod, crwydrol fàl.
Hen frwynen y fro anial.—BANOS.

MRS. HUMPHRY WARD.*

Yr oedd yn bleser mawr genyf ddcrbyn y dydd o'r blaen gopi o draethawd y Dr. D. J. Davies, Blaencwrt, ar "Arddull Mrs. Humphry Ward." Gwyr llawer o ddarllenwyr YR YMOFYNYDD, mi gredaf, mai dyma destyn Mr. Davies erbyn y gradd o Ph.D. a enillodd yn Mhrifysgol Marburg y flwyddyn ddiweddaf ac y mae'r traethawd yn un maith (oddeutu 140 o dudalenau), manwl, ac yn dangos fod yr ysgrifenydd yn hollol gynefin â'r testyn. Cychwyna'r awdwr gyda "Phoblogrwydd Mrs. Humphry Ward," ac y mae yn priodoli ei phoblogrwydd i raddau helaeth i'r ffaith fod ei gwaith yn rhoddi mynegiant i yspryd newydd yr oes yn mha un y mae yn byw,—i'r goleuni newydd yn mha un yr edrychir ar bynciau cymdeithasol a chrefyddol. Y mae "Robert Elsmere" yn fynegiant o'r olwg eangach a mwy dysgedig ar bynciau crefyddol, sydd yn gwneud lawnffyddiaeth yn anmhosibl. Y mae "Marcella" yn rhoddi mynegiant i yspryd sosialaidd yr oes, sydd yn gwrthryfela yn erbyn arferion cymdeithasol a gwleidyddol cyntefig. Y mae Mrs. Humphry Ward drwy ymdrin â'r pynciau hyn yn cyffwrdd a phen a chalon y genedl. Gyda threiddgarwch anarferol y mae hi wedi dadansoddi profiad y genedl, ac wedi canfod yn mha gyfeiriad y gallai ddisgwyl llwyddiant.

Rhaid ychwanegu hefyd naturioldeb ei harddull. Y mae ei chymeriadau yn "*true to nature*" ys dywedai "Wil Bryan," nid ysprydion neu fwganod ydynt ond dynion a benywod gwirioneddol rai o honynt, wedi eu gwisgo â llen mor deneu nes y mae'n bosibl eu hadnabod. Tybia Dr. Davies fod *Mr. Grey* yn "Robert Elsmere" yn ddarnodiad o'r diweddar Broffeswr T. H. Green, yr athronydd enwog; ac fod *Robert Elsmere* ei hunan i gryn fesur yn cynrychioli nodweddion y Proffeswr J. R. Green yr hanesydd ac awdwr "*A Short History of the English People.*" Alfred Toynbee dysgybl T. H. Green yw *Edward Hallin* yn "Marcella." Credir fod *William Ashe* yn cynrychioli prif nodweddion y gwir anrhydeddus A. J. Balfour, A.S.; *Mr. Lorraine* yn debyg i Mr. Gladstone; *Geoffrey Cliffe* yn ein hadgofio am Arglwydd Byron, &c. Felly y mae cymeriadau Mrs. Ward yn gymeriadau byw a naturiol.

Y mae ail ran y traethawd yn ymdrin âg arddull Mrs. Humphry Ward ac y mae yn ddadansoddiad neillduol o fanwl o'i holl gyfansoddiadau, ei hynodrwydd o ran iaith a mynegiant, ei chyffelybiaethau, ei chydmariaethau, ei gwawdiaith, ei digrifwch, ei theimlad byw a'i desgrifiadau nerthol a phrydferth. Y mae'n amheus iawn genyf a dderbynia arholwyr prifysgolion yr Almaen yn aml draethodau mor fanwl ac mor deilwng a'r un sydd o'n blaen. Y mae pawb sydd yn adnabod Dr. Davies yn gwybod yn dda na wnaeth ef erioed ymgais am anrhydedd heb geisio cyflawni ei gofynion, a theimlaf yn sicr fod y gradd o Ph.D. y mae efe yn wisgo heddyw yn un anrhydeddus ac wedi ei enill drwy deilyngdod yn unig, yr hyn yn anffodus nis gellir ddweyd am holl Ph.D.'s yr Almaen llai fyth am D.D.'s America.

J. ISLAN JONES.

---

* Beiträge zur stilistik Mrs. Humphry Ward. Inaugural Dissertation zur erlangung der Doktorwürde der philisophischen Fakultät der Universität Marburg vorgelgt von Daniel J. Davies aus Blaencwrt, Lampeter, Wales, 1907.

GOHEBIAETHAU.

O FOR I DEIFI.

FONEDDIGION,

Yr oedd yn hynod ddrwg genyf i ddarllen y gair "Terfyn" ar ddiwedd yr erthygl "O For i Deifi" yn eich rhifyn diweddaf. Yr wyf wedi edrych ar yr erthyglau hyn fel gemau disgleiriaf yr YMOFYNYDD — mor ddesgrifiadol, mor llawn o fywyd naturiol gwlad, ac o'r pathos sy'n apelio at y goreu sydd ynom. Dilynais yr awdwr drwy'r oll o'r daith gyda phleser digymysg a diflino,— ac fel un yr wyf yn ddiolchgar am y cyfleu, ac yn gobeithio na edy ei ysgrifell yn sych yn hir, ond y cawn gwrdd ag ef eto yn fuan ar faes yr YMOFYNYDD.

R.J.J.

DUW YN NGHROG.

FONEDDIGION,

Nid yw y syniad yn ddieithr i'r ugeinfed ganrif, er iddo ymddangos mor debyg i gabledd i'ch gohebydd. Mae llenyddiaeth Gymreig drwy'r oesoedd yn rhoddi dadganiad i'r syniad ac nid Glan Geirionydd yw yr unig Emynwr sydd wedi ei awgrymu. Feallai hefyd y carech osod ar gof a chadw englyn Gwyddderig i'r "Hoelen."

Un sydd yn ei swyddi—o werth uwch aur
Wrth ei churo'n gweini ;
Cyswllt pren, hoelen yw hi,
Duw ei hun fu 'nghrog dani !

PYRRHO.

ARHOLIAD YR YSGOL SUL, 1907.

Cymerodd yr unfed ar ddeg arholiad le nos Fercher, y 17eg o Ebrill. Naturiol yw dymuno gweled pob peth da yn llwyddo. Nid oes amheuaeth nad allai y Gwersi sydd wedi cael eu cyhoeddi genym yn ystod y blynyddoedd diweddaf brofi yn foddion effeithiol i gyfranu addysg Ysgrythyrol ac egwyddorion sylfaenol y grefydd Gristionogol, a gwneud ein hysgolion i gyrhaedd gwell dyben nag y maent yn wneud yn bresenol. A phan y mae moddion i wneud hyny yn cael cymaint o'i wrthod, naturiol yw i ni gael ein siomi a theimlo yn flin o herwydd hyny.

Daeth nifer dda o blant i sefyll yr arholiad mewn rhai manau, a thystiolaeth yr arholwyr bob un oedd eu bod ran fwyaf wedi pasio yn ardderchog. Dangosai llawer o honynt amgyffrediad a gallu meddwl cryf pan yr oedd gofyniadau yn cael eu rhoddi heb fod yn hollol yn yr un ffurf a gofyniadau'r wers, ac weithiau ychydig y tu allan i'r wers. Trueni mawr fydd i'r plant yma roi i fyny ar ol gorphen gyda Safon II. fel y mae yr arferiad yn awr. Gobeithio y cawn ni weled na wnant.

L. WILLIAMS,

Ysgrifenydd Adran yr Ysgol Sul.

RHYDYGWIN. ARHOLWR—PARCH. R. C. JONES.

Cyfanrif 32.

Safon I.—Dosparth I.—Jennie Jenkins, Dinah Jenkins, Elizabeth Evans Jones, Sally Margaret Davies, Elizabeth Saunders Davies, Gwladys Saunders Davies, Jane Owen, Hannah Mary Jones, Thomas Alban Williams, John Jones, Daniel Lloyd, John Jenkins, Evan Jones, Johnny Jones, David Daniel Jones, Watkin Griffiths.

Safon II.—Dosparth I.—Sally Margaret Davies, Anne Saunders Davies, Elizabeth Saunders Davies, Jane Owen, Mary Anne Jones, Elizabeth Williams, Mary Anne Jenkins, Lizzie Anne Davies, Ellen Mary Lloyd, Joseph Jones, Thomas Lloyd, Lloyd Owen Davies, William Saunders Davies, Daniel Saunders Davies, Henry Owen, John Jones.

CAERONEN. ARHOLWR—MRS. R. C. JONES.

Cyfanrif 9.

Safon I.—Dosparth I.—Evan John Jones. Dosparth II.—Sally Davies, Watkin William Davies.

Safon II.—Dosparth I.—Hannah Mary Jones, Mary Evans. Dosparth II.—Catherine Roberts, Annie Davies, John Garfield Evans.

BRONDEIFI, LLANBEDR. ARHOLWR—PARCH. D. EVANS.

Cyfanrif 22.

Safon I.—Dosparth I.—Anne Davies, Hannah Jane Lloyd, Ethel Irene Jane Davies, Sally Davies, Harriet Cordelia Price, Mary Blodwen Davies, Rachel Anne Davies, John Parry, David Ernest Goronwy Evans, John Jones, Teddie Jones, Thomas John Egbert Davies, David Joshua Davies, Stephen Parry, Llewelyn Davies.

Safon II.—Dosparth I.—Rachel Anne Davies, Maggie Jenkins, Gwilym Williams, John Parry, David Ernest Goronwy Evans, Henry Williams.

CRIBYN. ARHOLWR—PARCH. L. WILLIAMS.

Cyfanrif 49.

Safon I.—Dosparth I.—Mary Hughes, Sarah Jones, Winnie Blodwen Evans, Margaret Evans, Elizabeth Mary Jones, Ellen Mary Jones, Margaret Jones, Jane Jenkins, Anne Davies, Hannah Jones, Mary Jenkins, Rachel Jones, Jane Hughes, Margaretta Jones, James Evans (Clawddmoel), Thomas Davies, John Evans (Bank), David John Jones, Evan Williams, Samuel Evans, Jenkin John Jones, Benjamin Davies, Stephen Lewis, Thomas Lewis Jones, David Davies, John Evans (Old Shop), Evan Davies, Evan Jones, David Evans, John Lewis Evans, David Jones. Dosparth II.—Jane Evans, Esther Evans, Rachel Mary Harris, James Evans (Maesyronen).

Safon II.—Dosparth I.—Hannah Jones, Mary Jenkins, Rachel Jones, John Evans, Evan Davies, Evan Jones, Jenkin John Jones, David Evans, Benjamin Davies, Stephen Hughes, David Davies, Thomas Lewis Jones.

Safon II.—Dosparth II.—Anne Davies, John Lewis Evans.

CAPELYGROES. ARHOLWR—PARCH. J. DAVIES.

Cyfanrif 26.

Safon I.—Dosparth I.—Sarah Jones, Judeth Mary Davies, Margaret Jones, Lizzie Evans, Hannah Jones, Margaret Ellen Evans, Mary Jane Jenkins, Rachel Anne Davies, Elizabeth Jane Davies, John Jones, Evan Morgan, John Morgan, John Jones, Evan Jones, Samuel Davies, James Davies, David John Davies, Benjamin Evans, D. James Davies.

Safon II.—Dosparth I.—Judeth Mary Davies, Margaret Ellen Evans, Hannah Jones, Mary Jane Jenkins, Samuel Davies, James Davies, Benjamin Evans.

ALLTYPLACA. ARHOLWR—MR. JOHN A. DAVIES, LLANBEDR.

Cyfanrif 10.

Safon I.—Dosparth I.—Gwenllian Thomas, Bessie Evans, Sarah Hannah Evans, Lizzie Davies, Annie Davies, Evan Rees Evans. Dosparth II—Hannah Mary Davies, Martha Ann Thomas, John Arthur Thomas, Elias Davies.

CAPELYBRYN. ARHOLWR—MR. D. JONES, RHYDFENE.

Cyfanrif 28.

Safon I.—Dosparth I.—Rachel Mary Evans, Nest Ann Davies, Elizabeth Mary Jones, Mary Elsie Evans, David John Jenkins, Evan Thomas Jones, David Davies, Thomas Davies, Thomas Thomas, Evan Thomas, David Evans, John Davies (Cluncoch), John Davies (Dolgoch), Evan Davies, Daniel Davies. Dosparth II.—Eliza Hannah Evans, Sarah Lydia Anne Jones, Kate Jones, Hannah Evans, Elizabeth Ellen Evans, William Jones, Ellis Thomas.

Safon II.—Dosparth I.—Sarah Hannah Evans, Elizabeth Bronwen Davies, Mary Elizabeth Thomas, John James Evans, David Jones, David John Thomas.

LLWYNRHYDOWEN. ARHOLWR—MR. T. G. THOMAS.

Cyfanrif 7.

Safon I.—Dosparth I.—Annie Lee Jones, Rachel Ann Jones, Mary Jones, Hannah James, T. William Jones.

Safon II.—Dosparth I.—Hannah Davies, Anne Davies.

BWLCHYFADFA. ARHOLWR—PARCH. ARTHUR THOMAS.

Cyfanrif 24.

Safon I.—Dosparth I.—Hannah Brown, Annie Lewis, Anne Jones, Hannah Margaretta Jones, Rachel Jones, Nancy James Evans, Johnny Jones, James Brown, Johnny Thomas, Tom William Jones, Daniel Dyrchafel Lewis.

Safon II. Dosparth I.—Frances Mary Davies, Sarah Anne Jones, Mary Hannah Jones, Eliza Jones, Margaret Ellen Thomas, Minnie Thomas, David Jones, John James Evans, David Francis Herbert, Enoch Jones, David Jacob Lewis, Evan Jones, David Thomas.

PANTDEFAID. ARHOLWR—MR. MR. J. R. THOMAS, C.M.

Cyfanrif 7.

Safon I.—Dosparth I.—Rachel Jones, Sarah Evans, Eleanor Davies, Elizabeth Jones, James Davies, Tom Parry, David Walters.

GRAIG, LLANDYSSUL. ARHOLWR—MR. HERBERT HUGH JONES, PANTSTREIMON.

Cyfanrif 6.

Safon I.—Dosparth I.—Annie Mary Evans, Annie Evans, Elizabeth Jane Roberts, Annie Gertie Evans, Sarah Jones, Edward Davies.

TREBANOS. ARHOLWR—PARCH. SIMON JONES, B.A., ABERTAWE.

Cyfanrif 58.

Safon I.—Dosparth I.—Esther Davies, Blodwen Davies, Mary Anne Davies, Rachel Anne Thomas, Margaret Anne Bowen, Hannah Davies, Hannah Mary Bevan, Hannah Mary Jones, Mary Jane Lewis, David Every Morgan, Marles Williams, Harry Williams, Isaac Emrys Hopkin, Esiah Bevan. Dosparth II.—Mary Morgan, Mary Elizabeth Davies, Maggie Davies, Elsee Millcott, David Jenkins, Alfred Williams, Tommy Saunders, Oscar Bowen, Griff. Thomas, Willie Davies, Marles Morgan, Johnny Bowen.

Safon II.—Dosparth I.—Elizabeth Anne Hopkins, Gwen Morgan, Lizzie H. Evans, Rachel Anne Morgan, Sarah Saunders, Winnie Morgan, Sarah Anne Davies, Mary Davies, Dilla Saunders, Isaac Emlyn Hopkin, William Samuel Jones, William R. Davies, John Davies. Dosparth II.—Bessie Rock, Arthur John Williams.

Safon III.—Dosparth II.—Rachel Anne Bowen, Margaret Hannah Davies, Elizabeth Bevan, Elizabeth Lewis, Ellen Bowen, Elizabeth H. Hopkin, Morfudd Williams, Idris Williams, Benjamin Ivor Davies, David Arthur Bowen, William John Bevan, David J. Bowen, Henry H. Morgan,

Safon IV.—Dosparth I.—David Davies, J. J. Williams, "Banos," John Hopkin.

CONGL YR AWEN.

FFERYLL-FARDD YN Y COED.

"Symudaf, megys meudwy
Drwy lwyn o goed ar lan gwy,
Lle mae natur bur yn bod
Ym mireindeb morwyndod.
Yno ar faen, er fy hedd,
Man distaw, mynd i eistedd
Yn nghol y Rhyfeddol Fod,
Dan dô aden y Duwdod."

Dyfynedig gan Gwili yn y Geninen.

CARTRE RHAMANT.

I

Draw lle mae dwndwr y mor
Tragwyddol yn nghlust y creig;
Draw ar unigol lan
Ysgythrog fy mro Gymreig—
Yn yr oerion ogofeydd,
Ar ben y clogwyni mud,
Ar y traeth lle rhodia'r don,
Mae Rhamant yn byw o hyd.

II

Ai marw Morwyn y Môr?
Na, gedy y weilgi hallt,
Ac esgyn o flaen y storm
I'r graig i drwsio'i gwallt.
A phan ddel y corwynt croch
O'r gogledd-orllewin ddu,
Pan ddel llid y don ar y graig—
Yn syth i'r gwaelodion ffy.

III

A weli di'r darnau pren
Deri yn britho'r traeth?
Weli di'r drylliau mân
O waelod y weilgi ddaeth?
O waelod y lli, pa fodd?
O ddyfnder y môr, pa bryd?
Rhamant yn unig eill ddweyd,
Mae rhamant yn fyw o hyd.

IV

Weli di'r fagwyr hen
Ddrylliedig ar lan y lli'?
Gwylan y môr yn awr
Ei hunig breswylydd hi;
Gwymon y môr a geir
Ar aelwyd fu gynt yn glyd—
A glyna cregyn yn llu
Ar ei muriau llwyd i gyd.

V

Rhuo mae'r gogledd-wynt
Bob gauaf dros y creig,
Taranu mae tonnau'r môr
Yn ystormydd y lan Gymreig.
Acenion Cymreig a ddont
Gyda goleu'r bâd dros y don—
Ac ysbryd y dyddiau gynt
Breswylia'r draethell hon.

VI

"Y bugail a gân i'w braidd"
Yn yr haf ar y creigiau fry,
A gwlan ei ddeadell wen
Yn wyn fel y tonau sy';
Bref y ddiadell, a thwrf
Y don ar y weilgi faith,
Ac acen yr hen Gymraeg—
Mor hen, mor hen yr iaith!

VII

Anghyfnewidiol yw gwedd
Y clogwyn, a'r môr, a'r bryn;
Swn y tragwyddol a gaf
Yn y creigiau mudion hyn.
Cerddi garaf a ddont,
Fel o ddyddiau boreu'm byd
I'm clust yn y llanerch hon,
Lle mae Rhamant yn byw o hyd.

GER-Y-DON.

DECHREU HAF.

"Segur gog sy'n gwasgar gwawd
A'i chudd hoewiach ar ddeuawd;
Y troellwr sy'n troi allan,
A rhegen yr ŷd rygnai'i rhan.
Mae adar hoff yn myd yr ardd
O hyd, yn diwyd wahardd
Trychfilod neu falwod fydd
Yn menu ar ddail manwydd;
A'u barus arswydus wangc
Difaol ar dwf ieuanc;
A medr ei big, y mae dryw bach
Yn bore-fwyta 'i bryfetach;
Daw'r wenol hyfedr anian—
Ei bwyd yw myrdd wybed mân,
Yntau lyffant a loffa
Yn rhwydd ar wybed yr ha',
A deheuig dwrch daear
Ymleinw a'i ferw fâr.

* * * *

Yn ol daw y wenol deg
I fondo hefo hindeg,
Wedi ei maith daith drwy dês
Draw o India a'r Andes;
O'r bondo am dro hi drydd—
Dyry wibiad, dirybydd;
Heibio'n ol, buan ehed—
Gwae i obaith y gwybed.

R. WILLIAMS PARRY
yn y Geninen.

AWDURAETH "MYFYRDOD MEWN MYNWENT."

Yn y *Western Mail* yn ddiweddar ceisia rhywun daflu amheuaeth mai nid Dafis Castell Hywel gyfieithodd "Myfyrdod mewn Mynwent" o waith Saesneg y bardd Gray, ac ar yr un pryd awgrymu mai Edward Richard, Ystradmeurig, ydoedd awdwr un o'r gemau prydferthaf yn yr iaith Gymraeg. Gwaith digon hawdd ydyw gwneud haeriadau, ond gwaith anhawddach ydyw eu profi neu eu gwrthbrofi. Y mae awdwr erthygl y *Mail* yn seilio ei gred ar *title page* gweithiau barddonol Edward Richard y rhai gyhoeddwyd yn 1807. Darllena y wyneb-ddalen fel hyn :—

> "Yr Eos, sef gwaith awenyddol Edward Richard, &c. At y rhai ychwanegwyd 'Myfyrdod mewn Mynwent.'"

ac o herwydd mai yn 1824 yr argraphwyd "Telyn Dewi" gyntaf, daw i'r casgliad mai gwaith E.R. ydyw, am mai yn ei gyfrol ef, fel y tybia, y gwnaeth ei ymddangosiad gyntaf.

Mewn atebiad i hyn carem alw sylw at y ffeithiau canlynol. Nid ydyw cyhoeddwr gweithiau E.R. yn hawlio mai ef gyfieithiodd "Myfyrdod mewn Mynwent." "At y rhai ychwanegwyd," nid o angenrheidrwydd wedi ei gyfansoddi ganddo. Yr oedd E.R. wedi marw er ys blynyddau ac nid oedd yn gyfrifol am osod y "Myfyrdod" yn yr "Eos." Y mae yn awgrymiadol iawn fod y gân hon wedi ei thynu allan o argraffiadau diweddarach 1813 a 1826, adeg pan oedd Dafis Castell Hywel yn fyw ac yn anterth ei boblogrwydd, ac adeg pan nad oedd yna un amheuaeth yn nghylch ei hawduraeth.

Nid yn 1803 y cyhoeddwyd y "Myfyrdod" gyntaf, ond yn 1798 yn bamphledyn 8 tudalen. Cyhoeddwyd "Carwriaeth y Ceiliog Du" ganddo yn yr un modd yn 1807, a "Chri Carcharor" yn 1818, y rhai ellir weled yn swyddfa'r YMOFYNYDD. Mae yn wir nad ydyw enw yr awdwr wrth un o honynt. Yr oedd gwyleidd-dra Dafis y fath fel na cheir ei enw bron wrth ddim gyfansoddodd. Dim ond D.D. sydd wrth ei gyfieithiad o waith Henry Scougal "Bywyd Duw yn enaid dyn," ei brif waith mewn rhyddiaeth argraffwyd yn 1779. Yn ei ragymadrodd i "Telyn Dewi" gyhoeddwyd yn 1824 y mae Dafis yn dweyd fod peth o'i waith wedi ei gyhoeddi o dro i dro, gan gyfeirio yn ddiameu at y pamphledi hyn. Y mae hefyd yn werth sylwi fod Dafis yn hoff o'r bardd Gray am ei fod wedi cyfieithu o leiaf un dernyn arall o'i waith, sef "Golwg ar fangre ac amser bywyd." A'r rheswm diweddaf, ond nid y lleiaf, yr oedd Dafis yn fyw pan gyhoeddwyd Telyn Dewi yn 1824, oherwydd bu farw yn 1827. Ac y mae yr hanes am dano fel boneddwr gonest ac anrhydeddus, o gymeriad pur a dilychwin yn ddigon o sicrwydd na wnai ladrata eiddo dynion eraill.

TATHOS.

MARWGOFION.

EBRILL 18, William Davies, Troedybryn, ger Llanybyther, yn 44 mlwydd oed. Torwyd ef i lawr ar ol ychydig ddyddiau o gystudd. Gadawodd mewn galar ar ei ol weddw ac unarddeg o blant. Cladd-

wyd ei weddillion yn mynwent Capel Rhydybont. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parch. R. C. Jones, ac yn y capel a'r fynwent gan weinidog y lle.

EBRILL 28, Mrs. Davies, Brynonen, Llanarth, gynt Lanlasuchaf, Cellan, yn 84 mlwydd oed. Yn marwolaeth Mrs. Davies collodd eglwys fechan Caeronen un arall o'i charedigion goreu, ac y mae colli hen ffyddloniaid yn y fel yma, un ar ol y llall, yn neillduol brofedigaethus a thorcalonus i gynulleidfa nad oes ond ychydig o blant a dynion ieuainc yn perthyn iddi. Bu Mrs. Davies am flynyddau lawer yn un o golofnau cedyrn yr eglwys uchod mewn ystyr arianol a pharhaodd felly hyd ei bedd. Yr oedd hyny'n werthfawr neillduol, ond yr oedd dylanwad iachus ei hymarweddiad hardd, ei serchogrwydd a'i siriol-deb gwastadol yn fwy gwerthfawr fyth. Llanwer ein heglwysi ag aelodau o gyffelyb yspryd. Gadawodd amryw berthynasau agos mewn galar ar ei hol. Claddwyd ei gweddillion yn mynwent Capel Caeronen. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parch. Mr. Prydderch, ac yn y capel a'r fynwent gan weinidog y lle.

MAI 5, yn dra disymwth, yn 67 oed, David Richards, masnachwr, Penygraig, Llanwenog. Aethai i'w wely y noson flaenorol yn debyg fel arferol, ond ar y bore galwodd ar ei ferch o'r ystafell arall i roddi iddo ddyferyn o ddwfr, ac erbyn iddi wneud yr oedd yr yspryd yn ehedeg at Dduw yr hwn a'i rhoes. Claddwyd yn ymyl ei anwyl briod, yn mynwent Capelycwm, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y gweinidog gyda chynorthwy caredig y Parch. E. O. Jenkins. Gadawodd 9 o blant mewn galar dwfn ar ei ol. Yr oedd ei briod hawddgar wedi ei ragflaenu oddiar yr 16eg o fis Medi diweddaf ac yr oedd ei marwolaeth hi, yn nghyda'r clefyd, oedd wedi hir lechu yn ei gyfansoddiad, wedi prysuro'r diwedd. Treuliodd yr ymadawedig oes ddefnyddiol yn mhob ystyr. Ond ni ddylid anghofio dweyd, mai efe a'i briod gychwynodd yr achos yn y Cwm, ac iddo wneud ei oreu drosto trwy'r blynyddau. Nerth a gaffo ei anwyl blant i ddal o dan yr amddifadrwydd mawr o golli tad a mam mor agos i'w gilydd.

MANION AC HANESION.

Y GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMREIG.—Dymunem y mis hwn eto adgofio yr eglwysi a'r tanysgrifwyr, nad ydynt wedi gwneud hyny, fod y casgliadau a'r tanysgrifiadau yn awr yn ddyledus. Gyrer hwynt yn ddiymdroi i'r trysorydd, Mr. John Evans, Cyfreithiwr, Llandyssul.

ADRAN YR YSGOL SUL.—Dymunir cydnabod gyda diolchgarwch y casgliadau canlynol:—Capelyfadfa, 5s.: Pantdefaid, 5s.; Cwmbach, 5s.; Alltyplaca, 5s.; Brondeifi, 5s. 3c.; Cribyn, 5s.6c.; Capelygroes, 5s. 8c.; Capelybryn, 6s.; Caeronen, 7s. 2c.; Llwyn, 8s.; Hen Dŷ Cwrdd, Aberdar, 8s.; Rhydygwin, 13s. 10c.; Trebanos, 17s. 4c.; Graig, Llandyssul, 17s. 4c.—*L. W.*

TREBANOS A GELLIONEN.—Nos Sadwrn, Mai 4, yn y Graig, Trebanos, traddododd y Parch. D. J. Rees, Penybontarogwy, ddarlith odidog i gynulleidfa luosog, ar y testun "Iolo Morganwg, saer maen, bardd, a hynafiaethydd." Yn ddios, gwelsom yr hen Iolo ei hun; ac yr oeddem yn falch i gael y pleser o wrando Mr. Rees yn defnyddio ei alluoedd darlithyddol. Cân pawb oedd mai, melus, moes eto. Y Sul dilynol, cynaliodd yr eglwys uchod ei chyfarfodydd pregethu, pan y gwasanaethodd y darlithydd, Mr. Rees, a'r gweinidog,

y Parch. Mr. Alfa Richards. Dau fachgen sylweddol i'w gwrando ydynt, mae ganddynt rywbeth y tu allan i'r cyffredin i roddi i'w gwrandawyr.

UNDEB YSGOLION LLANDYSSUL. —Cynhaliwyd cymanfa flynyddol Ysgolion Sul Bwlch, Llwyn, Pantdefaid a Llandyssul, yn nghapel newydd y Bwlch, Sul, Mehefin 12. Y mae yn dda genym weled arwyddion amlwg fod y gymanfa hon yn cynydduyn ei phoblogrwydd flwyddyn ar ol blwyddyn, ac ni fu eleni yn eithriad i'r rheol. Holwyd ysgolion y Bwlch a'r Llwyn gan y Parch. Arthur Thomas, a Phantdefaid a Llandyssul gan y Parch. E. O. Jenkins. Arweiniwyd yr ysgolion mewn canu undebol gan Mr. E. Caradog Richards, Llandyssul. Canwyd tônau dewisedig o'r rhaglen, anthemau y plant, yn nghyd a'r anthem "Mawr yw'r Ior." Cyfeiliwyd yn fedrus drwy'r dydd gan Mrs. Kate Thomas, Llandyssul. Yn yr hwyr pregethwyd i gynulleidfa fawr gan y ddau weinidog enwyd. Gwnaeth cyfeillion caredig y Bwlch ddarpariaethau helaeth er croesawu dieithriaid pell ac agos, ac yr oedd eu gwên serchog a siriol yn cyfranu llawer iawn at y mwynhad a'r llwyddiant ddilynodd weithrediadau y dydd.

LLANBEDR.— Cynhaliwyd cymanfa ysgolion un rhan o'n heglwysi yn y rhan uchaf o'r sir eleni yn Llanbedr ar y 13eg cyfisol. Awd drwy y gwaith yn y drefn ganlynol :—Llanbedr (Luc v.) : holwr—Parch. D. R. Davies ; Alltyplaca (Luc vi.) : holwr—Parch. R. C. Jones ; Caeronen (Actau xv.) : holwr—Parch. D. Evans ; Capelygroes (Ioan xviii.) : holwr—Parch. J. Davies. Adroddwyd amryw ranau o'r Ysgrythyr ar ddechreu'r ddau wasanaeth gan blant perthynol i'r gwahanol ysgolion. Hefyd, holwyd y plant yn ngwaith y ddau safon gan y Parch. D. R. Davies a Mr. Tom Lloyd, Llysfaenuchaf. Cyfeiliwyd yn ddeheuig iawn yn ystod y dydd gan Miss Grace Jenkins, Blaenwaunganol. Yn yr hwyr cafwyd dwy bregeth gan y Parchn. J. Davies a D. Evans.

CAPELYBRYN. — Yn Nghwrtnewydd y cynhaliwyd cymanfa y pedair ysgol arall ar y 14eg o Fai. Aeth yr ysgolion drwy eu gwaith yn y drefn ganlynol : Capelybryn (Luc vi.) ; Cribyn (Luc xvii.) ; holwyd y ddwy gan y Parch. J. Davies. Rhydygwin (Luc xviii.) ; Ciliau (Matthew iii.) ; holwyd y ddwy gan y Parch. D. Evans. Aeth pob un o'r ysgolion drwy eu gwaith yn rhagorol. Da oedd genym sylwi fod y plant yn cael eu parotoi mor drwyadl gan athrawon y gwahanol ysgolion. Mae clod mawr yn ddyledus iddynt am eu hymdrechion a'u ffyddlondeb. Yn unol a'r hen arferiad, yr hwn oedd wedi ei droi o'r neilldu er's amryw flynyddau, canodd pob un o'r ysgolion naill ai anthem neu dôn. Credwn fod hyn yn welliant.

CYMANFA GANU UNDODIAID MORGANWG.—Cynaliwyd yn nghapel yr Annibynwyr, Gnoll Road, Castellnedd, trwy ganiatad caredig yr eglwys a'r gweinidog. Daeth yn nghyd gynulliad da o gantorion ac eraill o wahanol eglwysi yr undeb, y cyfan yn ffurfio un côr mawr. Yr arweinydd ydoedd y Parch. D. J. Evans, Chester, gynt o Cwmbach, ac aeth drwy ei waith yn ganmoladwy. Y llywyddion oeddynt,—y prydnawn, Mr. Lewis Hopkins, Gellionen ; yr hwyr, Parch. W. J. Phillips, Nottage. Yn mhlith y gweinidogion yr oedd yn bresenol, y Parchn. Alfa Richards ; Simon Jones, B.A. ; M. Evans ; David Rees ; J. P. Kane ; J. Hathren Davies, a John Morgan, gweinidog yr Annibynwyr. Canwyd dwy anthem yn y prydnawn, "He watching over Israel," a "Bendigedig fyddo Arglwydd Dduw Israel." Datganodd Miss M. M. Davies, Aberdare, "Abide with me," Miss Constance Evans, Highland Place, "The Perfect Life" yn nghyd a Mr. John Lewis, Cefn, yn swynol iawn. Y cyfeilydd oedd Mr. D. R. Davies, Trecynon. Anerchwyd y cyfarfodydd gan y Parch. D. G. Rees, Mr. L. N. Williams, Mr. Gomer Thomas, a Mr. Pritchard, Newport. Rhagorai canu yr hwyr ar un y prydnawn, ac

amlygodd yr arweinydd ei fod yn foddlongar iawn, a llongyfarchodd y rhai fu drwy'r gauaf yn llafurio yn y gwahanol eglwysi.

PANTEG A RHYDYPARC. — Dau gapel bychan gan yr Undodiaid ydyw y rhai hyn. Yn y blaenaf y mae gwasanaeth cyson yn cael ei gario yn mlaen, ond ni fu un bregeth gan yr Undodiaid yn yr olaf er ys oddeutu pum mlynedd, a'r gwasanaeth crefyddol diweddaf a fu ynddo ddwy flynedd i Ionawr diweddaf ar achlysur claddedigaeth un o'r gymydogaeth yn y gladdfa. Y mae Rhydyparc yn gapel bychan hardd gydag angen ychydig o adgyweiriadau, a mynwent dlos wrth ei ochr, ac y mae yn syndod meddwl fod ei ddrws yn gauedig am gymaint o amser mewn lle ag y mae cymaint o angen am dŷ i addoli. Beth bynag talodd y Parch. E. O. Jenkins, gweinidog Llwynrhydowen a Bwlchyfadfa ymweliad a'r ddau le, Sabath y 19eg o Fai. Pregethodd yn Panteg yn y boreu am 10 o'r gloch, ac yn Rhydyparc am 2 o'r gloch yn y prydnawn. Yr oedd cyfeillion Panteg wedi trefnu y mudiad o ailagor y capel, ac aeth nifer o honynt yn gydymdeithion i Mr Jenkins. Cyrhaeddwyd y lle yn brydlon a chafwyd cynulliad da yn nghyd a phregeth ragorol iawn, yn cael ei mwynhau gan bawb, gallem feddwl, a chanu effeithiol. Yr oedd yn hyfrydwch mawr i mi weled yn bresenol feibion a merched a rhai o berthynasau y cewri Undodaidd fu yn cadw fyny binaclau yr achos yn y lle hwn gyda'r fath sêl a brwdfrydedd yn ngwyneb pellder ffordd i gyrhaeddyd y lle gan lawer o honynt ar dymhorau a thywydd anymunol, eto i gyd yr oedd eu brwdfrydedd dros achos Duw gymaint fel nad oedd dim a'u rhwystrai. Gobeithio fod y mudiad o ail-agor capel Rhydyparc yn wreichionen a ail gyneua y tân ysprydol yr oedd ein teidiau yn feddianol o hono.

J.B.Ll.

MYNWENT PANTDEFAID. — Dymunem gydnabod gyda diolchgarwch y rhodd o bunt at dreuliau helaethiad y fynwent hon oddiwrth Mr. D. M. Davies, Cozenooia, U.D. America. Ychydig feddyliai ysgrifenydd y nodyn ymddangosodd erys ychydig yn ol yn gofyn am gynorthwy at y draul, y buasai yn cyrhaedd mor bell, nac yn cynyrchu y dylanwad gafodd. Y mae tad a mam Mr. Davies yn gorwedd yn y fangre gysegredig. Dyna'r esboniad.

RHYBUDD. — Y mae Golygwyr presenol YR YMOFYNYDD yn ymddiswyddo o'r olygiaeth, a bydd y mater yn dyfod gerbron Pwyllgor y Gymdeithas yn y cyfarfod blynyddol yn Aberdar.

APEL CAPEL UNDODAIDD PENTRE, RHONDDA.

Adeiladwyd y capel uchod yn 1895, fel canlyniad ymdrechion cenhadol y Parch. W. Griffiths, Ph.D. Costiodd yr adeilad £860, o'r hwn y mae o hyd yn sefyll mewn dyled £450.

Bu y Parchn. Ivor Davies, D. G. Rees, Penybont, ac hyd 1905 D. R. Davies, yn weinidogion arni. Gwneir y gynulleidfa i fyny bron yn hollol o fwnwyr. Ymwelais a'r aelodau yn ddiweddar ac wedi chwilio i fewn, yr wyf yn gwbl argyhoeddedig, hyd nes y symudir y ddyled hon sydd yn pwyso mor drwm ar yr ychydig ffyddloniaid, ei bod yn anmhosibl i'r cyfeillion yn y Pentre wneud yr un cynydd boddhaol.

Mae y gynulleidfa wedi glynu wrth eu gilydd yn ddewr, o dan amgylchiadau anffafriol; a chyda gwybodaeth gyflawn o'r sefyllfa, yr wyf yn taer apelio at y cyhoedd Undodaidd am help i osod y lle addawol hwn ar seiliau cadarnach. Ymddengys rhestr y Tanysgrifwyr yn YMOFYNYDD Gorphenaf.

L. N. WILLIAMS,

Llywydd Cymdeithas Undodaidd De-ddwyrain Cymru.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

CHRISTR, THOMAS, & BROS, Ltd., Bristol

Have the Leading Reputation in Wales for their

HOUSEHOLD & TOILET SOAPS

THE FAVOURITE QUALITY IS

CHRISTR. THOMAS, & BROS., LTD., BEST PALE

Which, as well as the other sorts, can be obtained, wholesale and retail, from

T. E. JONES & Co., LLANDYSSUL.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS,

General Draper, Milliner, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

A well Selected Stock of Capes, Jackets and Millinery always on hand.

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

CATALOGUES FREE.

Fresh Vegetable Seeds

Fresh Flower Seeds.

Funeral Wreaths & Designs, Wedding Bouquets.

HARRY COYSH,

Garden Expert & Flower Artist.

NOTT SQ., CARMARTHEN.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Mrs. W. A. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

BEN EVANS & COMPY.

Are now making a Grand Display of FURNITURE and FURNISHING MATERIALS.

Artistic Furniture for Halls and Offices.
Artistic Furniture for Drawing and Dining Rooms.
Artistic Furniture for Bedrooms.

FURNITURE REMOVED. ESTIMATES FREE.

BEN EVANS & COMPY.

For the Largest Selection of Brussels, Axminster, Velvet Pile, Tapestry, Turkey and Oriental Carpets, Turkey, Persian, Japanese, Scinde and Turkestan Rugs, Painted Back Oilcloths, Cork Carpets and Inlaid Linoleums. Carpets & Floor Coverings, Made & Laid Free of Charge.

BEN EVANS & COMPY.

Hold a well-assorted Stock of Bedsteads and Bedding, Domestic Ironmongery, Hollow-ware, Brushes & Turnery, Fire Irons, Baths, Lamps, Table Glass, Breakfast, Dinner and Tea Services, together with a Beautiful Selection of Silver and Electro-Plated Goods, suitable for Wedding Presents. . . . . .

Furniture, Carpets, &c., to the value of £10 and upwards, Carriage Paid to nearest Railway Station.

BEN EVANS & COMPY.

Have always on hand a First Class Stock of Irish Table Linen, Irish, Barnsley and Cotton Sheetings, Embroidered and Hemstitched Sideboard and Tray Cloths, Bedspreads D'oyleys, &c., &c. . . . . .

Drapery Parcels to the value of 20s. and upwards, Carriage Paid

ILLUSTRATED CATALOGUE POST FREE.

BEN EVANS & CO., LTD. SWANSEA.